



CYNLLUN IAITH GYMRAEG UK SPORT

2011 -2015

5 Medi 2011



Cynnwys

Y Cynllun

UK Sport

- Cefndir
- Cyfrifoldebau Craidd

Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

- Rhaglen Ddigwyddiadau Safon Ryngwladol
- Rhaglen Berfformiad Safon Ryngwladol
- Polisiau a Mentrau newydd
- Safon Gwasanaethau

Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

- Gohebiaeth (gan gynnwys e-bost)
- Cyfathrebu dros y ffôn
- Dogfennau cyfreithiol a chytundebau
- Ymchwil
- Cyfarfodydd cyhoeddus

Ein Hwytneb Cyhoeddus

- Gwefan
- Datganiadau i'r Wasg
- Ymgyrchoedd
- Cyhoeddiadau a Ffurflenni
- Hunaniaeth Gorfforaethol
- Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Gweithredu'r Cynllun

- Staffio
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithio mewn partneriaeth
- Gwasanaethau a gyflenwir ar ran UK Sport gan drydydd parti
- Trefniadau mewnol
- Monitro
- Adolygu a diwygio'r cynllun
- Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynllun

Atodiad A – Prif dargedau cyflenwi'r cynllun

Atodiad B – System sgorio ar gyfer cyhoeddi

Y Cynllun

Dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n gosod sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Mae'r cynllun hwn yn disgrifio sut y bydd UK Sport yn gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddorion a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir gan UK Sport ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Yn y cynllun hwn, mae'r term **cyhoedd** yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd cyfan, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennol. Cynhwysir cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd o fewn y term 'cyhoedd'. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnwys personau sy'n cyflawni rôl sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o fewn ystyr y gair *cyhoedd* pan fyddant wrthi'n cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Ceir gwybodaeth bellach am rychwant a phwrpas cynlluniau Iaith Gymraeg ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg sef:

<http://www.Welsh-language-board.org.uk>

Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg dan Adran 14 o'r Ddeddf ar 5 Medi 2011.

UK Sport

Cefndir

Daeth UK Sport (Cyngor Chwaraeon y DU), a sefydlwyd trwy Siarter Brenhinol ar 19 Medi 1996, yn gwbl weithredol ar 1 Ionawr 1997. Mae UK Sport yn gyfrifol am fuddsoddi tua £100 miliwn o arian cyhoeddus bob blwyddyn - gan y Loteri Genedlaethol yn ogystal â'r Trysorlys - mewn chwaraeon perfformiad uchel. Mae cynllun nawdd preifat, sef "Tîm 2012" hefyd yn cyfrannu arian ychwanegol.

Mae gan UK Sport, sy'n atebol i'r Adran dros Ddiwylliant, Y Cyfryngau a Chwaraeon, gylch gwaith clir ar 'ben uchaf' llwybr chwaraeon Prydain Fawr, ac nid yw'n ymwneud yn uniongyrchol â chwaraeon cymunedol neu chwaraeon ysgol.

Wedi'i leoli mewn un swyddfa yn Llundain, caiff ei oruchwylio gan Fwrdd sy'n cynnwys cynrychiolwyr cynghorau chwaraeon y gwledydd cartref ac aelodau annibynnol sy'n cwrdd bob deufis.

Penderfynodd yr Adran dros Ddiwylliant, Y Cyfryngau a Chwaraeon yn Hydref 2010 y dylid "uno" UK Sport a Sport England i greu strwythur mwy unedig, clir a chost-effeithiol fel rhan o gynlluniau etifeddiaeth Gemau Olympaidd 2012 y Llywodraeth. Dylai'r "uno" arfaethedig hwn ddigwydd erbyn Ebrill 2013.

Derbyniodd UK Sport ei daliad ariannol pedair blynedd o 2011/12 i 2014/15 a gwelwyd arian trysorlys UK Sport yn cael ei gwtogi 28% dros y cyfnod hwnnw mewn termau go iawn. Mae'r taliad, ynghyd â newidiadau yn y modd y dosbarthir arian y Loteri Genedlaethol, yn golygu bod UK Sport o'r farn fod ganddo'r adnoddau i ariannu athletwyr a chefnogi gwasanaethau hyd at 2012. Ar gyfer cylchdro Rio 2016, bydd UK Sport yn wynebu cwtogi pellach, ond mae wedi ymrwymo i sicrhau na fydd UK Sport, dros gyfnod yr adolygiad ar wariant, yn cwtogi ar ei fuddsoddiad yn rhaglen chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd yr haf, mwy na 15%. Bydd cynnydd yn arian y Loteri Genedlaethol a ddosbarthir i UK Sport o 2011 a 2012 yn helpu UK Sport i reoli hyn.

Cyfrifoldebau Craidd

Llwyddiant Perfformiad Uchel

UK Sport yw'r corff strategol arweiniol ar gyfer chwaraeon perfformiad uchel yn y DU. Mae'n buddsoddi tua £100m y flwyddyn mewn 1,200 o athletwyr ar draws 47 o chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd er mwyn sicrhau'r cyfle gorau o ennill medalau ym Mhencampwriaethau Ewrop a'r Byd, ac yn y pen draw yn y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd.

Defnyddir strategaeth fuddsoddi 'Dim Cyfaddawdu' sy'n targedu adnoddau ar y chwaraeon a'r athletwyr hynny sy'n fwyaf tebygol o gystadlu ac ennill ar y llwyfan rhyngwladol, ac a fu

tu ôl i'r newid cam wrth gam ym mherfformiad Prydain Fawr, o Sydney 2000 i Beijing 2008, ac ymlaen i Lundain 2012.

Enwebir athletwyr sy'n cael eu cefnogi gydag arian cyhoeddus gan eu Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol yn y DU, i'w cynnwys fel rhai sy'n cwrdd â'r meini prawf o ran perfformiad. Mae athletwyr sy'n gymwys i gystadlu yn nhîm Prydain Fawr (*Team GB*) wedi'u lleoli ar hyn o bryd yn Lloegr, Yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel, a thramor.

Digwyddiadau Mawr

Mae UK Sport hefyd yn gyfrifol am fuddsoddi £35m y flwyddyn ar gydgysylltu'r broses o gynnig am, a llwyfannu prif ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol yn y DU. Mae'r digwyddiadau Ewropeaidd a Byd-eang hyn nid yn unig yn darparu cystadlaethau cartref i'n hathletwyr yn y cyfnod sy'n arwain at 2012, ond hefyd yn cefnogi swyddogion a gwirfoddolwyr sydd â phrofiad hanfodol, ac yn cynhyrchu adenillion o bron i £5 o effaith economaidd ar gyfartaledd, o fewn rhanbarthau sy'n llwyfannu digwyddiadau, am bob £1 o arian loteri a fuddsoddir. Rhwng 2007 a 2012 bydd dros 100 o ddigwyddiadau mawr wedi'u llwyfannu mewn trefi a dinasoedd yn y DU, a bron pob un o'r chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd wedi cynnal digwyddiad mawr rhyngwladol yn y cyfnod cyn gemau Llundain 2012.

Cysylltiadau a Datblygiadau Rhyngwladol

Y genhadaeth a osodwyd gan UK Sport yw sefydlu'r DU fel y genedl gyda'r mwyaf o wybodaeth, cysylltiadau a dylanwad ym maes chwaraeon ar draws y byd. Gan weithio gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol a phartneriaid eraill, mae UK Sport am annog y sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu chwaraeon ar lefel ryngwladol i wneud penderfyniadau sy'n rhoi ystyriaeth i fuddiannau cenedlaethol. Mae'r rhaglen yn cynnwys dylanwadu ar lefel strategol, a chynorthwyo i ethol a phenodi dinasyddion y DU i swyddi allweddol o fewn cyrff sy'n gwneud penderfyniadau, ac adeiladu perthynas gref, ddwyochrol gyda gwledydd allweddol dethol. Ochr yn ochr â hyn, cydnabyddir rhaglen cynorthwyo datblygiad rhyngwladol hirsefydlog UK Sport ar draws y byd fel cyfrwng blaenllaw o ran darparu datblygiad trwy chwaraeon.

UK Sport yw'r asiantaeth gyflenwi arweiniol ar gyfer '*International Inspiration*', y bartneriaeth gyda'r Cyngor Prydeinig, UNICEF ac eraill sy'n anelu at gyflenwi'r addewid a wnaed gan dîm cais Llundain 2012 "*to reach young people all around the world and connect them to the inspirational power of the Games so they are inspired to choose sport ...*"

Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

Pwrpas y cynllun hwn yw gweithredu, hyd y bo'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru (adran 5 (2) o'r Ddeddf). Bydd rhaglenni, mentrau a gwasanaethau UK Sport fel y'u disgrifir isod, sy'n cael eu darparu yng Nghymru, yn gyson â'r cynllun hwn.

Fel dosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol sydd wedi'i leoli yn Llundain, gall UK Sport ddyfarnu grantiau i gyrff chwaraeon, athletwyr o Gymru, neu bersonél sy'n cynorthwyo athletwyr Cymreig yng Nghymru. Wrth wneud hynny, bydd UK Sport yn glynu at yr egwyddorion canlynol:

- a) Pan fydd grant yn cael ei roi i rywun am y tro cyntaf yng Nghymru, bydd y cyfathrebu ffurfiol yn ddwyieithog, a gofynnir i'r derbynnnydd beth yw ei (d)dewis iaith, gydag unrhyw gyfathrebu pellach yn digwydd yn yr iaith a ddewisir;
- b) Pan nad yw'r dewis iaith yn wybyddus, bydd unrhyw gyfathrebu ffurfiol o ran dyfarnu grantiau'n ddwyieithog nes bod y derbynnnydd yn mynegi ei (d)dewis iaith.

Bydd telerau ac amodau'r grant yn dilyn yr egwyddorion uchod.

O ran egwyddorion buddsoddi, mae rhaglenni a ariannir gan UK Sport fel arfer yn rhaglenni caeedig ar gyfer Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol ac athletwyr a ddewisir neu a enwebir ymlaen llaw. Nid yw UK Sport yn rhedeg rhaglenni grant agored.

Rhaglen Ddigwyddiadau Safon Ryngwladol

Wrth ddarparu rhaglen o Ddigwyddiadau Safon Ryngwladol ar draws y DU mewn partneriaeth â Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol, dinasoedd a rhanbarthau, ac asiantaethau'r gwledydd cartref, gall UK Sport roi cymorth ariannol i'r broses o gynnig am, a llwyfannu prif ddigwyddiadau chwaraeon yng Nghymru. Pan fydd prif ddigwyddiad chwaraeon yn cael ei lwyfannu yng Nghymru gyda chefnogaeth ariannol gan UK Sport, bydd gofyn i Reolwyr Digwyddiadau ystyried sut gall pob digwyddiad mawr yn ei dro gwrdd ag anghenion y cyhoedd yng Nghymru drwy'r cynllun hwn. Bydd grantiau a ddyfarnir ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru'n cynnwys amod bod y grant yn amodol ar y cynllun hwn.

Rhaglen Berfformiad Safon Ryngwladol

Mae nifer o athletwyr o Gymru sy'n byw yng Nghymru wedi'u cynnwys ar raglen Berfformiad Safon Ryngwladol UK Sport ar gyfer chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd penodol, ar ôl cael eu henwebu gan eu Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol. Mae hon yn rhaglen ar gyfer y DU gyfan ac mae'n cynnwys athletwyr o'r pedair gwlad gartref. Pan fydd gan UK Sport berthynas ariannu uniongyrchol ag athletwr o Gymru neu bersonél sy'n cynorthwyo athletwr, sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, er enghraifft, o ganlyniad i ddyfarnu gwobr athletwr bersonol, bydd UK Sport yn cynnig cyfathrebu'n ysgrifenedig yn Gymraeg.

Polisiau a Mentrau Newydd

Bydd polisiâu a mentrau newydd UK Sport yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg, pan fo'n briodol, i helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu bywydau o ddydd i ddydd.

Bydd UK Sport yn sicrhau bod staff sy'n ymwneud â ffurfio polisiâu'n ymwybodol o'r cynllun a chyfrifoldebau UK Sport dan y Ddeddf. Bydd yr asesiad effaith cyfartaledd mewn perthynas ag unrhyw bolisi neu fenter newydd yn cynnwys asesiad yn erbyn y cynllun hwn.

Safonau gwasanaeth

Pan ddarperir gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg byddant o safon gyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un raddfa amser.

Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth (gan gynnwys ebost)

Os bydd aelod o'r cyhoedd yng Nghymru'n ysgrifennu atom neu'n anfon ebost yn Gymraeg, bydd UK Sport yn ateb yn Gymraeg (pan fydd angen ateb), ac yn gwneud hynny o fewn yr un raddfa amser ag yr atebir rhai sy'n ysgrifennu yn Saesneg.

Os bydd UK Sport yn dechrau gohebu gydag unigolyn, grŵp, neu sefydliad yng Nghymru, bydd yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg neu Saesneg yn unig.

Os bydd UK Sport yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyr i unigolion neu gyrff yng Nghymru, bydd yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y derbynwyr ei dderbyn yn Gymraeg neu Saesneg yn unig.

Bydd unrhyw ddogfennau a amgaeir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael. Bydd ymatebion sylweddol i geisiadau am wybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, neu geisiadau gwrthrych am wybodaeth dan Ddeddf Diogelu Data 1998, yn iaith yr ymholiad. Cynigir unrhyw wybodaeth amgaaedig yn Gymraeg pan fydd ar gael yn Gymraeg. Ni fydd gwybodaeth a gedwir yn Saesneg yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg yn unswydd er mwyn ateb ceisiadau am wybodaeth.

Cyfathrebu dros y ffôn

Oherwydd ein lleoliad ni fyddai'n ymarferol nag yn gost-effeithiol inni gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg. Os bydd y galw am y Gymraeg yn datblygu yn ystod y cynllun, bydd UK Sport yn adolygu'r gofyn gan ystyried gwerth am gost.

Dogfennau a chytundebau cyfreithiol

Cynigir dogfennau a chytundebau cyfreithiol i unigolion, sefydliadau neu grwpiau yng Nghymru yn yr iaith sydd orau gan y derbynnydd. Bydd mapiau a dogfennau eraill a mewnosodir mewn cytundebau o'r fath, sydd wedi'u benthyca neu'u defnyddio dan drwydded, yn ymddangos yn iaith y ffynhonnell wreiddiol.

Ymchwil

Os a phryd y bydd UK Sport yn comisiynu neu'n ymgymryd ag ymchwil sy'n cynnwys arolygon "trwy'r post", "o ddrws i ddrws", trwy ebost neu dros y ffôn, gydag athletwyr, personél sy'n cynorthwyo athletwyr, cyrff chwaraeon, neu aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, - cynhelir y rhain yn ddwyieithog oni bai bod dewis iaith y rhai sy'n cael eu holi'n wybyddus.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Anaml iawn y bydd UK Sport yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus. Os bydd UK Sport yn cynnal cynhadledd neu gyfarfod arall o'r fath yng Nghymru sy'n agored i aelodau'r cyhoedd,

darperir gwasanaeth cyfieithu, oni bai ein bod wedi sefydlu bod yr holl gyfranogwyr yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

Bydd y rhai sy'n trefnu'r digwyddiad yn penderfynu a oes angen cyfleusterau cyfieithu ai peidio ar ôl ystyried lleoliad y digwyddiad, pwy sy'n debygol o'i fynychu, y pwnc dan sylw, a ph'un ai ydy UK Sport wedi cael gwybod am unrhyw un sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Darperir gwybodaeth ysgrifenedig a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru ar ffurf ddwyieithog, a bydd yr holl adroddiadau a phapurau a gynhrychir yn sgil cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu yn y ddwy iaith.

Ein Hwyrneb Cyhoeddus

Gwefan

Mae gan UK Sport wefan, sef www.uksport.gov.uk.

Byddwn yn cytuno ar raglen, i'w chymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i gynyddu cynnwys cyfrwng Cymraeg ein gwefan, dros amser, yn unol â'r cynllun.

Pan fydd gwybodaeth yn cael ei chynhyrchu yn Gymraeg dan y cynllun hwn, a'i bod yn wybodaeth fyddai fel arfer yn cael ei gosod ar y wefan, yna cynhwysir y fersiwn Gymraeg. Bydd arwyddbyst clir ar y Dudalen gartref ar gyfer cyrchu deunydd Cymraeg.

Datganiadau i'r Wasg

Dosbarthir datganiadau i'r wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg, pan fo dyddiadau cau'n caniatáu.

Pan fydd datganiadau eraill ar gyfer y wasg a'r cyfryngau'n cael eu gosod ar y wefan, bydd y rheiny hefyd yn Gymraeg a Saesneg, pan fo dyddiadau cau'n caniatáu. Bydd UK Sport yn ymrwmo i gynllunio ymlaen llaw unrhyw ddatganiadau rhagweithiol i'r wasg sydd o ddiddordeb penodol i'r cyhoedd yng Nghymru, a byddant yn cael eu cyfieithu cyn eu cyhoeddi yn y ddwy iaith. Bydd arwyddbyst clir ar y dudalen gartref ar gyfer cyrchu deunydd Cymraeg.

Ymgyrchoedd

Mae Tîm Talent y DU wedi cael effaith ar y tirlun chwaraeon perfformiad uchel. Mae nifer o unigolion wedi gwneud cais ar draws Prydain i gael eu hasesu ar sail eu potensial i fod yn athletwyr elitaidd. Mae'r Tîm wedi parhau i weithio mewn partneriaeth agos â Chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd i hyrwyddo Arferion Recriwtio a Datblygu Talent fwy soffistigedig. Mae athletwyr llwyddiannus wedi cynnwys athletwyr o Gymru.

Mae Tîm Talent y DU yn chwilio am ddynion a merched sy'n cystadlu ym myd chwaraeon sydd â'r potensial i ddod yn bencampwyr Olympaidd a Pharalympaidd yn 2016. Ar hyn o bryd gall unigolion ar draws Prydain gwblhau holiadur ar wefan UK Sport yn cofrestru eu diddordeb mewn ymgyrchoedd pellach i ganfod Talent ar gyfer 2016.

Bydd UK Sport yn ystyried y ffordd orau o gwrdd ag anghenion darpar athletwyr sydd wedi nodi Cymraeg fel eu dewis iaith, hyd y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn ymarferol resymol. Bydd arwyddbyst clir i'r deunydd Cymraeg ar ein gwefan.

Pan fydd dilyniant i ymgyrch yn cynnwys llwyfannu gweithgaredd yng Nghymru, bydd yr wybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg pryd bynnag y bo modd, oni bai ein bod wedi sefydlu bod yr holl gyfranogwyr yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

Cyhoeddiadau a Ffurflenni

Byddwn yn defnyddio'r system sgorio a atodwyd i'r cynllun hwn, ac a gytunwyd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd at ddefnydd y cyhoedd yn ddwyieithog, neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, ac os felly, ar ba ffurf.

Hunaniaeth gorfforaethol

Fel corff sy'n gweithredu dros y DU gyfan, un hunaniaeth gorfforaethol sydd gan UK Sport.

Bydd cynllun gweithredu'n cael ei gytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i fabwysiadu a chyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog briodol yng Nghymru fel bo angen. Pan fydd UK Sport yn ariannu digwyddiad chwaraeon mawr sy'n cael ei lwyfannu yng Nghymru, er enghraifft, bydd yn sicrhau, trwy Reolwr y Digwyddiad, bod yna frandio priodol yn Gymraeg a Saesneg.

Cynhyrchir llythyrau gyda phennawd Cymraeg ar gyfer gohebu yn Gymraeg.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a osodir mewn papurau newydd Saesneg eu hiaith (neu gyfryngau tebyg) a ddisbarthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru'n ddwyieithog, neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg. Bydd yr hysbysiadau yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un ai ydynt wedi'u cynhyrchu fel un fersiwn sengl, ddwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Yn y cyfryngau Saesneg eu hiaith, gall hysbysebion swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol fod yn Gymraeg, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Bydd hysbysiadau recriwtio a osodir mewn cylchgronau (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg eu hiaith a ddisbarthir ledled y DU yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ac os felly, gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg, gydag esboniad byr yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a osodir mewn manau eraill yng Nghymru'n ddwyieithog.

Gweithredu'r Cynllun

Staffio

Gydag un swyddfa genedlaethol, mae'r broses o recriwtio staff ar hyn o bryd yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd y staff yn gweithio yn Llundain, gyda chyfrifoldebau ar lefel Brydeinig/DU, yn amodol ar y bwriad i uno UK Sport â Sport England erbyn 2013. I rai staff, mae natur eu gwaith yn caniatáu iddyn nhw weithio o bell am y rhan fwyaf o'u hwythnos waith. Does dim staff sy'n llwyr gyfrifol am weithgareddau yng Nghymru a does dim swyddi sy'n gofyn am hyfedredd yn yr iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Gosodir hysbysiadau recriwtio mewn cylchgronau Saesneg eu hiaith a ddsbarthir ledled y DU fel arfer. Yn gyffredinol, hysbysebiri swyddi gydag UK Sport ar y wefan yn Saesneg. Adolygir hyn yng ngoleuni unrhyw newidiadau o ran swyddogaethau, lleoliad a chyfeiriad strategol UK Sport, yn unol â'r cynllun.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Wrth inni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh bydd UK Sport yn rhoi ystyriaeth i *Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg lle bynnag y bo'n briodol.

Gweithio mewn Partneriaeth

Os mai ni yw'r arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau'n ymwneud â gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn ni'n ymuno â phartneriaeth ffurfiol mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein mewnbyn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu'n unol â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu'n unol â'r cynllun hwn.

Mae'r uchod yn cyfeirio at bartneriaethau ffurfiol sy'n delio â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru'n unig.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran UK Sport gan drydydd parti

Bydd UK Sport yn sicrhau bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru'n gyson â thelerau'r cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys contractio ac is-contractio gwasanaethau.

Trefniadau mewnol

Cyhoeddir y cynllun gyda chefnogaeth lawn Prif Weithredwr UK Sport a'r Tîm Cyfarwyddwyr.

Bydd adnodd cydymffurfio'n ofynnol i weithredu'n unol â'r cynllun hwn, fydd yn rhan o gyfrifoldeb y Tîm Llywodraethu.

Mae Atodiad A yn cynnwys cynllun gweithredu i ddatblygu'r cynllun hwn a gweithredu yn ôl ei ofynion. Bydd y cynllun gweithredu'n dod i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun hwn i rym.

Bydd y cynllun yn cynnwys dyddiadau cwblhau a thargedau fel bo angen. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu fydd sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn rydym wedi ymrwmo iddo yn y cynllun hwn cyn gynted ag y bo modd, ac yn ystod oes y cynllun.

Bydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun ymhlith ein staff. Bydd yn cael ei gyhoeddi a'i amlygu ar ein gwefan. Bydd y staff yn derbyn hyfforddiant priodol.

Byddwn yn sicrhau mai dim ond cyfieithwyr cymwysedig a ddefnyddir gennym i gyfieithu deunydd electronig a phrintiedig, neu i gyfieithu ar y pryd. Bydd yn ofynnol bod y cyfieithwyr hynny'n aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Ymgymerir ag unrhyw fath o gyswllt gyda'r cyhoedd yng Nghymru nad yw'n dod dan y cynllun hwn yn benodol, mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a geir yn y cynllun.

Monitro

Bydd UK Sport yn monitro cynnydd o ran cyflenwi'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a osodir yn y cynllun gweithredu a gytunwyd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Anfonir adroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym Mehefin, yn Gymraeg a Saesneg.

Anfonir adroddiad ar y cynnydd bob hyn a hyn i'r Tîm Cyfarwyddwyr.

Y targed yw sicrhau bod UK Sport yn gweithredu'n unol â nod ac amcanion y cynllun hwn o fewn pedair blynedd o'r dyddiad y daw i rym.

Adolygu a diwygio'r cynllun

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd o'r dyddiad y daw i rym. Gallwn hefyd benderfynu adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig gwelliannau iddo o ganlyniad i newidiadau i'n swyddogaethau, neu'r amgylchiadau ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall. Nid fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun hwn heb sêl bendith Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynllun

Dylid anfon unrhyw gwynion mewn perthynas â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer ei wella, i'r cyfeiriad isod:

Welsh Language Scheme Coordinator

Governance Team

UK Sport

40 Bernard Street

London WC1N 1ST

info@uksport.gov.uk

Byddwn yn cydweithredu â'r Bwrdd er mwyn datrys cwynion, ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Atodiad A: Prif dargedau cyflenwi'r cynllun

Targed	Dyddiad Cwblhau
<p>1. Digwyddiadau Mawr</p> <p>Bydd gofyn i Reolwyr Digwyddiadau ystyried sut gall pob digwyddiad mawr a lwyfannir yng Nghymru gyda chefnogaeth ariannol gan UK Sport, gwrdd ag anghenion y cyhoedd yng Nghymru yn y ffordd orau, drwy'r cynllun hwn.</p>	<p>Medi 2011</p>
<p>2. Polisiâu a Mentrau Newydd</p> <p>Bydd polisiâu a mentrau newydd UK Sport yn gyson â'r cynllun hwn. Bydd UK Sport yn sicrhau bod staff sy'n ymwneud â llunio polisiâu'n ymwybodol o'r cynllun a chyfrifoldebau UK Sport.</p>	<p>Hydref 2011</p>
<p>3. Gohebiaeth (gan gynnwys e-bost)</p> <p>Ymatebir yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig a dderbynnir yn Gymraeg.</p>	<p>Hydref 2011</p>
<p>4. Grantiau a Gynigir</p> <p>Cynigir grantiau i Gyrrff Llywodraethu Cenedlaethol, athletwyr a phersonél sy'n cefnogi athletwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, yn Gymraeg a Saesneg, oni bai bod y dewis iaith yn wybyddus.</p>	<p>Tachwedd 2011</p>
<p>5. Gwefan</p> <p>Bydd UK Sport yn cytuno ar raglen, i'w chytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i gynyddu'r cynnwys Cymraeg ei iaith ar ein gwefan, yn unol â'r cynllun.</p>	<p>Ionawr 2012</p>
<p>6. Gwasanaethau a ddarperir gan drydydd parti</p> <p>Bydd gwasanaethau sy'n cael eu contractio gan UK Sport i drydydd parti eu cyflenwi i'r cyhoedd yng Nghymru'n gyson â thelerau'r cynllun hwn.</p>	<p>Ionawr 2012</p>
<p>7. Ymchwil</p> <p>Bydd arolygon a gynhelir ymhlith y cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog oni bai bod y dewis iaith yn wybyddus.</p>	<p>Ebrill 2012</p>
<p>8. Ymgyrchoedd</p> <p>Mae Tîm Talent UK Sport yn chwilio am ddynion a merched sy'n cystadlu ym myd chwaraeon sydd â'r potensial i ddod yn bencampwyr Olympaidd a Pharalympaidd yn 2016. Bydd UK Sport</p>	<p>Mawrth 2011</p>

<p>yn ystyried sut i fynd ati i gwrdd yn y ffordd orau bosib ag anghenion athletwyr sy'n nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.</p>	
<p>9. Cyhoeddiadau a Ffurflenni</p> <p>Byddwn yn defnyddio'r system sgorio a atodwyd i'r cynllun hwn i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd at ddefnydd y cyhoedd yn ddwyieithog, neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, ac ar ba ffurf.</p>	<p>Ebrill 2012</p>

Atodiad B

CYNLLUN IAITH GYMRAEG UK SPORT 2011

System Sgorio ar gyfer Cyhoeddiadau

1. Nifer copïau sydd i'w hargraffu bob blwyddyn i'w defnyddio yng Nghymru:

1- 500: sgôr = 1

500 – 5,000: sgôr = 2

Dros 5,000: sgôr = 4

2. Y gynulleidfa darged (uniongyrchol neu anuniongyrchol)

- Y cyhoedd yn gyffredinol: sgôr = 15
- Sector arbennig o'r cyhoedd: sgôr = 10
- Unigolion sy'n cynrychioli meysydd penodol: sgôr = 0

3. A fydd y cyhoeddiad yn berthnasol i faes arbennig¹ neu i ran o Gymru sydd o ddiddordeb arbennig o ran y Gymraeg? Neu a fydd wedi'i anelu'n benodol at ardaloedd sydd â chyfradd neu nifer uchel o siaradwyr Cymraeg?

- Bydd: sgôr = 10
- Na fydd: sgôr = 0

4. Am ba gyfnod fydd y cyhoeddiad yn cael ei ddefnyddio cyn iddo gael ei ddisodli gan gyhoeddiad mwy cyfredol²?

0 – 6 mis: sgôr = 1

6 mis - 2 flynedd: sgôr = 2

Dros 2 flynedd: sgôr = 4

5. Nifer geiriau yn y cyhoeddiad:

0 – 1,000 sgôr = 4

1,000 – 5,000: sgôr = 2

Dros 5,000 sgôr = 1

6. Amcangyfrif gorau o nifer y tudalennau *mewn fersiwn uniaith* o'r cyhoeddiad:

¹ Bydd cyhoeddiadau UK Sport fel arfer ym maes chwaraeon Olympaidd/Paralympaidd a bydd eu cynnwys ar gyfer y DU gyfan yn hytrach nag ar gyfer un Gwlad Cartref

² Os mai dogfen ymgynghori yw'r cyhoeddiad, dylid anwybyddu'r cwestiwn hwn ac ateb cwestiwn 7 yn lle.

1 – 10: sgôr = 4

10 – 20: sgôr = 2

Dros 20: sgôr = 1

7. (Cwestiwn ar gyfer dogfennau ymgynghori'n unig). Delio â phwnc sy'n:

Arbenigol/dechnegol iawn: sgôr = 1

Eitha' cymhleth ond o ddiddordeb i lawer: sgôr = 2

Hawdd ei ddeall/o ddiddordeb cyffredinol: sgôr = 4

Dylid adio'r sgorau – a'u cymharu â'r canlynol:

Penderfyniad ynghylch fersiwn **bapur** o'r cyhoeddiad

0-14: does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg

15 – 18: mae'r sgôr yma'n awgrymu y dylid paratoi fersiwn Gymraeg (ond os na, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle)

Dros 18: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg.

Penderfyniad ynghylch fersiwn electronig o'r cyhoeddiad (i'w chynnwys ar wefan UK Sport).
Dylech anwybyddu cwestiynau 1 a 6 wrth ichi gyfrifo'r sgôr yma:

0-11: does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg

12 to 14: mae'r sgôr yma'n awgrymu y dylid paratoi fersiwn Gymraeg (ond os na, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle)

Dros 14: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg.

Penderfyniad ynghylch cyhoeddi dogfen ddwyieithog neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn argymhell y dylai'r man cychwyn fod yn dybiaeth o blaid dogfennau dwyieithog yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd UK Sport yn rhoi ystyriaeth i hyn, ynghyd â mesurau gwerth am arian.

O ran dogfennau a gyhoeddir gan UK Sport ar ei wefan, bydd yr un mor hwylus i gyrchu fersiwn Gymraeg ag y bydd i gyrchu fersiwn Saesneg, p'un ai ydy'r ddogfen wedi'i chyhoeddi'n ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

System Sgorio ar gyfer Ffurflenni

1. Nifer copïau sydd i'w hargraffu bob blwyddyn i'w defnyddio yng Nghymru:

1 – 500: sgôr = 1

500 – 5,000: sgôr = 2

dros 5,000: sgôr = 4

2. Y gynulleidfa darged:

- y cyhoedd yn gyffredinol: sgôr = 15
- sector arbennig o'r cyhoedd: sgôr = 10
- unigolion sy'n cynrychioli meysydd penodol: sgôr = 0

3. A fydd y ffurflen yn delio â maes arbennig neu ran o Gymru sydd o ddiddordeb arbennig o ran y Gymraeg? Neu a fydd hi wedi'i hanelu'n benodol at ardaloedd sydd â chyfradd neu nifer uchel o siaradwyr Cymraeg?

- bydd: sgôr = 10
- na fydd: sgôr = 0

4. Am ba gyfnod fydd y ffurflen yn cael ei defnyddio? (Ni ddylid ystyried ail-argraffu'r ffurflen; mân newidiadau megis newid y flwyddyn ar dop y ffurflen, neu newid rhan o'r ffurflen i adlewyrchu rheolau newydd, fel diwedd cylch bywyd yr hen fersiwn).

0 – 6 mis: sgôr = 1

6 mis - 2 flynedd: sgôr = 2

Dros 2 flynedd: sgôr = 4

5. Nifer geiriau yn y ffurflen:

1 – 500: sgôr = 4

500 – 1,000: sgôr = 2

1000 – 5,000: sgôr = 1

dros 5,000: sgôr = 0

6. Nifer tudalennau yn y ffurflen:

1 – 5: sgôr = 4

5 – 10: sgôr = 2

10 – 20: sgôr = 1

dros 20: sgôr = 0

Dylid adio sgôr yr holl gwestiynau – a'i gymharu â'r canlynol

Penderfyniad ynghylch fersiwn **bapur** o'r ffurflen:

0 – 15: does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg

dros 16: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg

Penderfyniad ynghylch fersiwn **electronig** o'r ffurflen (i'w chynnwys ar wefan UK Sport):

0 – 15: does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg

dros 16: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg.